Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Archwiliad Hanfodion Gofal Cymru Gyfan

Crynodeb o lefelau cydymffurfio sefydliadau'r GIG â'r safonau ar sail archwiliad 2011

Awdur: Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Llywodraeth Cymru

Chwefror 2012

Her lechyd Cymru
Health Challenge Wales

ISBN digidol 978 0 7504 7449 8
© Hawlfraint y Goron 2012
WG 15407

Tudalen

Rhagair	1
Cefndir	2
Crynodeb o Ganlyniadau’r Archwiliad	5
Crynodeb – Meysydd gweithredu	9
Canlyniadau	21
Casgliad	21

Rhagair

Ni waeth pa wasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol y bydd unigolyn yn ei ddefnyddio, ceir rhai agweddau ar ofal sy'n berthnasol i bawb. Gyda'i gilydd, cyfeirir at y rhain fel 'Hanfodion Gofal' ac maent yn cynrychioli 12 maes y mae defnyddwyr gwasanaeth wedi dweud eu bod yn bwysig iddynt hwy.

Mae'n hanfodol bwysig bod gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau ym maes iechyd yn cael yr 'Hanfodion' yn gywir ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth bob tro. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu offeryn archwilio ar gyfer staff a chleifion i nodi meysydd arfer da a'u galluogi i ddatblygu cynlluniau gweithredu lle mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r offeryn archwilio ar gael ledled Cymru erbyn hyn mewn amrywiaeth eang o leoliadau iechyd a chaiff ei ystyried yn sbardun pwysig ar gyfer gwella gwasanaethau yn gyffredinol, o feysydd clinigol drwy'r byrddau i Lywodraeth Cymru.

Dylid cymryd rhywfaint o ofal wrth edrych ar y canlyniadau a gaiff eu cofnodi yn erbyn pob dangosydd. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi cipolwg o'r sefyllfa ar un adeg benodol ac maent yn gyfuniad o waith hunanasesu gan staff a barn sampl o gleifion. Nid yw'r canlyniadau'n destun gwaith craffu allanol. Un rhan yn unig ydynt o drefniadau monitro perfformiad cyffredinol GIG Cymru. Dylid cofio mai prif bwrpas yr offeryn archwilio yw helpu staff y rheng flaen i nodi drostynt eu hunain pa feysydd y mae angen iddynt weithio arnynt i godi safonau.

Cafwyd 3 archwiliad cenedlaethol hyd yma, ac mae nifer y meysydd a'r math o feysydd a gafodd eu cynnwys wedi cynyddu bob tro. Defnyddir tystiolaeth o'r archwiliadau fel dangosydd i bennu pa feysydd y mae angen ymdrin â nhw yn genedlaethol. Un maes o'r fath yw iechyd a hylendid y geg, sydd wedi cael sgôr is na chategorïau eraill yn gyson. Yn 2012 cyhoeddir safon genedlaethol ac offeryn asesu i arwain staff yn eu harfer. Caiff materion o'r archwiliad hwn eu hystyried yn ofalus hefyd a chymerir camau gweithredu priodol i barhau â'r ymgyrch i wella safonau gofal ledled Cymru.

Yr Athro Jean White
Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

Cefndir

Yn 2003 lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Hanfodion Gofal', sef dogfen Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n ceisio gwella ansawdd agweddau sylfaenol ar ofal i ddefnyddwyr sydd â salwch difrifol neu gronig, sy'n fregus eu hiechyd neu sy'n anabl, ni waeth ble y mae angen eu gofal arnynt na pham. Deilliodd menter Hanfodion Gofal o bryderon ynghylch y canlynol:

- Anghysondebau o safbwynt safonau ledled ardaloedd a gwasanaethau
- Y pwyslais ar gost ac effeithlonrwydd yn hytrach nag ar ansawdd y gofal
- Themâu cyffredin o ran cwynion a chanmoliaeth
- Disgwyliadau cynyddol ymysg defnyddwyr gwasanaeth
- Diffyg eglurder i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Mwy o ffocws ar reoleiddio a pherfformiad

Mae Hanfodion Gofal yn cefnogi'r agenda ansawdd bresennol ac mae'n rhan amlwg o "Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru"; adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o sefydliadau GIG Cymru gan gynnwys eu hapwiriadau; adolygiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o urddas wrth ofalu am bobl hŷn mewn ysbytai (2011); a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn (2006).

Gan gydnabod bod y broses o roi gofal yr un mor bwysig i brofiad y claf â chanlyniad y gofal, mae'r ddogfen yn rhestru 12 agwedd ar ofal sy'n berthnasol i oedolion.

Y 12 agwedd ar ofal sydd bwysicaf ym marn cleifion a gofalwyr yw:

- Cyfathrebu a Gwybodaeth
- Parchu pobl
- Sicrhau diogelwch
- Hybu annibyniaeth
- Cynnal perthynas
- Gorffwys, cysgu a gweithgarwch
- Sicrhau cysur, lleddfu poen
- Hylendid personol, golwg bersonol a gofal traed
- Bwyta ac yfed
- Iechyd a hylendid y geg
- Defnyddio'r toiled
- Atal briwiau gwasgu

Mae 'Hanfodion Gofal' yn tynnu ynghyd cyfres gyfansawdd o ddangosyddion, sy'n seiliedig ar ymchwil ac arfer gorau. Daw'r dangosyddion hyn o amrywiaeth o ofynion statudol, gorfodol a phroffesiynol a pholisïau cenedlaethol.

Mae dogfen ‘Hanfodion Gofal’ yn dweud y dylid bodloni’r holl safonau a monitro i ba raddau y cydymffurfir â hwy mewn modd systematig. Cyfrifoldeb y sefydliad sy’n darparu’r gofal hwnnw a’r staff y mae’n eu cyflogi yw gweithredu, gwerthuso ac archwilio’r safonau hyn.

Er bod pob un o sefydliadau’r GIG wedi mynd ati yn unigol i ddatblygu offeryn archwilio Hanfodion Gofal, cydnabuwyd ers tro y dylid datblygu offeryn Archwilio Hanfodion Gofal ar gyfer Cymru Gyfan.

Ym mis Mehefin 2008, lansiodd Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y ddogfen Rhydd i Arwain, Rhydd i Ofalu, Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog ar gyfer Grymuso Prif Nyrsys Ward, ac un o’r argymhellion allweddol yn yr adroddiad oedd:

“Dylai pob Prif Nyrs Ward allu manteisio ar Offeryn Archwilio ar gyfer Cymru Gyfan wedi’i ddatblygu i fesur safonau yn erbyn Hanfodion Gofal a gyhoeddwyd yn 2003. Dylid dosbarthu adroddiadau sy’n deillio o’r Offeryn Archwilio hwn i Fwrdd Ymddiriedolaeth y GIG a’r Prif Swyddog Nyrsio, Cymru”.

Yn dilyn lansio Rhydd i Arwain, Rhydd i Ofalu, sefydlwyd is-grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol i fynd i’r afael â Safonau Hanfodion Gofal Cymru Gyfan a datblygu Offeryn Archwilio electronig Hanfodion Gofal Cymru Gyfan. Cadeirydd y grŵp oedd Denise Llewellyn, y Cyfarwyddwr Nyrsio.

Wrth ddatblygu’r offeryn archwilio, aeth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent fel yr oedd ar y pryd, ati i ymgysylltu â staff y Cyngor Iechyd Cymuned i gefnogi’r gwaith o ddatblygu elfen y defnyddiwr o’r offeryn archwilio. Teimlwyd bod cynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned yn y gwaith yn cefnogi elfen bwysig o fod yn ddiduedd o safbwynt y claf.

Cafodd yr offeryn archwilio ei gwblhau a’i dreialu Iedled Cymru ym mis Mehefin 2009. Ym mis Medi 2009, lansiwyd yr Offeryn Archwilio Hanfodion Gofal ar draws wardiau/adrannau cleifion mewnol cyffredinol. Ers hynny, mae’r Offeryn Archwilio wedi’i fireinio ar gyfer adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Theatrau ac adrannau Cleifion Allanol.

Dylid nodi bod y safonau sy’n berthnasol i ‘Parchu Pobl’ a ‘Cynnal Perthynas’ wedi eu cyfuno yn yr offeryn.

Roedd pob safon wedi’i mapio’n wreiddiol yn erbyn Safonau Gofal Iechyd Cymru Gyfan. Yn 2010 diweddarwyd y safonau a chyhoeddwyd y ddogfen “Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*” gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Erbyn hyn, mae’r Safonau Hanfodion Gofal wedi eu mapio yn erbyn y safonau diwygiedig.

Gall y system electronig sy’n sail i’r offeryn archwilio ddadansoddi’r data a gaiff ei fewnbynnu ar lefel y ward a chynhyrchu adroddiadau ar sail y data hwnnw. Mae hefyd yn galluogi pob ward i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu i fynd i’r afael â materion a nodwyd sy’n peri pryder yn ogystal ag adeiladu ar feysydd arfer da. Caiff y data ei hidlo yn ôl safon, ward, arbenigedd a safle.

Mae gofyn i sefydliadau'r GIG gynnal archwiliad llawn o bob un o wardiau/adrannau eu hysbytai yn flynyddol a chyflwyno'r canlyniadau i'r Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio Cymru, lle caiff Crynodeb Cymru Gyfan ei greu.

Mae'r wybodaeth isod yn grynodeb o archwiliad 2011 a gynhaliwyd gan 8 o sefydliadau'r GIG rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2011.

Many more departments are now using the audit tool in comparison to 2009. The information gathered will continue to be used to form a benchmark for organisations to prioritise local action but also to influence all Wales work, to improve the standards of patient care and enhance the overall patient experience.

Crynodeb o Ganlyniadau’r Archwiliad – Fesul Sefydliad

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	87.4	97.7
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	83.7	94.3
3	Sicrhau diogelwch	92.1	97.1
4	Hybu annibyniaeth	90.5	95.2
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	83.4	88.9
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	92.1	98.1
8	Hylendid personol a golwg bersonol	74.3	96.5
9	Bwyta ac yfed	90.8	92.3
10	Iechyd a hylendid y geg	73.4	87.4
11	Defnyddio’r toiled	92.7	95.1
12	Atal briwiau gwasgu	90.7	90.1

Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	85	96
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	80	94
3	Sicrhau diogelwch	90	95
4	Hybu annibyniaeth	82	94
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	83	91
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	83	96
8	Hylendid personol a golwg bersonol	76	95
9	Bwyta ac yfed	89	94
10	Iechyd a hylendid y geg	70	87
11	Defnyddio’r toiled	93	95
12	Atal briwiau gwasgu	87	91

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	85.4	96.7
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	80.5	92.2
3	Sicrhau diogelwch	92.7	95.5
4	Hybu annibyniaeth	90.8	94.2
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	87.8	90.4
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	88.3	97.3
8	Hylendid personol a golwg bersonol	78.2	98.4
9	Bwyta ac yfed	90.7	92
10	Iechyd a hylendid y geg	74.3	87.6
11	Defnyddio'r toiled	94.1	95.6
12	Atal briwiau gwasgu	89.5	90.2

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	85.4	96.7
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	80.5	92.2
3	Sicrhau diogelwch	92.7	95.5
4	Hybu annibyniaeth	90.8	94.2
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	87.8	90.4
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	88.3	97.3
8	Hylendid personol a golwg bersonol	78.2	98.4
9	Bwyta ac yfed	90.7	92
10	Iechyd a hylendid y geg	74.3	87.6
11	Defnyddio'r toiled	94.1	95.6
12	Atal briwiau gwasgu	89.5	90.2

Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	85.4	96.7
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	80.5	92.2
3	Sicrhau diogelwch	92.7	95.5
4	Hybu annibyniaeth	90.8	94.2
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	87.8	90.4
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	88.3	97.3
8	Hylendid personol a golwg bersonol	78.2	98.4
9	Bwyta ac yfed	90.7	92
10	Iechyd a hylendid y geg	74.3	87.6
11	Defnyddio'r toiled	94.1	95.6
12	Atal briwiau gwasgu	89.5	90.2

Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	85.4	96.7
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	80.5	92.2
3	Sicrhau diogelwch	92.7	95.5
4	Hybu annibyniaeth	90.8	94.2
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	87.8	90.4
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	88.3	97.3
8	Hylendid personol a golwg bersonol	78.2	98.4
9	Bwyta ac yfed	90.7	92
10	Iechyd a hylendid y geg	74.3	87.6
11	Defnyddio'r toiled	94.1	95.6
12	Atal briwiau gwasgu	89.5	90.2

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	85.4	96.7
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	80.5	92.2
3	Sicrhau diogelwch	92.7	95.5
4	Hybu annibyniaeth	90.8	94.2
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	87.8	90.4
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	88.3	97.3
8	Hylendid personol a golwg bersonol	78.2	98.4
9	Bwyta ac yfed	90.7	92
10	Iechyd a hylendid y geg	74.3	87.6
11	Defnyddio'r toiled	94.1	95.6
12	Atal briwiau gwasgu	89.5	90.2

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Safon		Sgôr Weithredol lefel gydymffurfio – %	Profiad Defnyddwyr sgôr – %
		2011	2011
1	Cyfathrebu a Gwybodaeth	85.4	96.7
2&5	Parchu pobl a Chynnal perthynas	80.5	92.2
3	Sicrhau diogelwch	92.7	95.5
4	Hybu annibyniaeth	90.8	94.2
6	Gorffwys, cysgu a gweithgarwch	87.8	90.4
7	Sicrhau cysur, lleddfu poen	88.3	97.3
8	Hylendid personol a golwg bersonol	78.2	98.4
9	Bwyta ac yfed	90.7	92
10	Iechyd a hylendid y geg	74.3	87.6
11	Defnyddio'r toiled	94.1	95.6
12	Atal briwiau gwasgu	89.5	90.2

Crynodeb – Meysydd Gweithredu

Mae'r adran sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r graffiau'n dangos y lefelau cydymffurfio ar gyfartaledd o safbwynt proffesiynol ac o safbwynt y defnyddwyr ym mhob un o sefydliadau'r GIG ar gyfer pob safon. Mae'r tabl yn rhoi detholiad o'r materion cyffredin/themâu allweddol, meysydd arfer da a chynlluniau ar gyfer gwella sydd wedi eu nodi gan y sefydliadau dan sylw.

Safon 1 Cyfathrebu a Gwybodaeth
Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 2;8;9;18;20;23

Egwyddor: Byddwch yn derbyn gwybodaeth lawn am eich gofal mewn iaith a modd sy'n sensitif i'ch anghenion



Crynodeb o Faterion Cyffredin/Themâu Allweddol • Nid yw manylion demograffig cleifion yn cael eu cofnodi yn nogfennau'r claf bob amser. • Ni chaiff y cynllun gofal ei drafod â'r claf a/neu ei ofalwyr bob amser ac ni ofynnir am farn perthnasau a chleifion bob amser.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Ceir gwaith cadw cofnodion o safon dda mewn rhai wardiau ym mhob sefydliad. • Cafwyd gwelliant yn safon y wybodaeth am gleifion. • Rhoddir sylw i ofynion ysbrydol cleifion drwy ymweliadau rheolaidd gan y gaplaniaeth. • Cyflwynwyd Trawsnewid Gofal (ceir manylion ar wefan 1000 o Fywydau a Mwy). • Mae gwaith archwilio dogfennau/arolygon bodlonrwydd cleifion yn cael eu cynnal yn fisol mewn rhai wardiau ym mhob sefydliad.
Cynlluniau ar gyfer Gwella • Cydnabuwyd yr angen i wella safon gwaith cadw cofnodion. • Cydnabuwyd yr angen i fynd i'r afael ag anghysondebau o ran dogfennau nyrsio.

Safon 2 a Safon 5
Safonau ar gyfer Gwasanaethau IECHYD Cymru: Safonau 5; 8; 9; 10; 12; 18; 19; 24; 26

Parchu Pobl - Egwyddor: Caiff eich hawliau dynol i gadw urddas, preifatrwydd a chael dewis ar sail gwybodaeth eu gwarchod bob amser a bydd y gofal a ddarperir yn rhoi ystyriaeth i'ch anghenion, eich galluoedd a'ch dymuniadau personol

Cynnal Perthynas - Egwyddor: Fe gewch eich annog i gynnal y cyswllt sydd gennych gyda'ch teulu a'ch ffrindiau ac i feithrin perthynas gyda phobl eraill fel y byddwch yn dymuno

Safon 2 a 5 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin/Themâu Allweddol • Roedd rhai ardaloedd yn dweud nad oedd digon o gyfleusterau ar gael i berthnasau aros dros nos. • Nid oedd gwybodaeth am anghenion diwylliannol ac ysbrydol y claf yn cael ei chofnodi, lle'r oedd ar gael. • Mae mynediad i gyfleusterau i berthnasau sydd am aros dros nos yn broblem mewn rhai sefydliadau. • Mae sicrhau bod staff yn mynychu Hyfforddiant Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a rhaglenni hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed yn dal i fod yn broblem. • Roedd rhai ardaloedd yn pryderu ynghylch ansawdd gynau cleifion a'r ffaith nad oedd dillad nos ar gael i gleifion.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Cyflwyno'r llyfryn 'This is me' fel rhan o'r 'Cynllun Iâr Fach yr Haf' (gofal dementia). • Mae'r fenter Trawsnewid Gofal wedi arwain at welliannau o ran trefniadaeth a diogelwch ar wardiau. • Mae Rhaglen Ddatblygu ar waith ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gefnogi'r agenda urddas a pharch.
Cynlluniau ar gyfer Gwella • Cefnogi staff i fynychu Hyfforddiant Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a rhaglenni hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed. • Adolygu'r ddarpariaeth o ran gynau ysbyty. • Tynnu sylw pellach at yr angen am lety i berthnasau aros dros nos/gorffwys. • Gweithredu Safonau Ysbrydol.

Safon 3 Sicrhau Diogelwch
Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 4; 5; 12; 13; 16; 22; 23; 26

Egwyddor: Eir ati'n frwd i hyrwyddo a gwarchod eich iechyd, eich diogelwch a'ch lles. Caiff risgiau eu nodi, eu monitro a, phan fydd yn bosibl, eu lleihau neu'u hatal

Safon 3 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin/Themâu Allweddol • Mae diffyg lleoedd hyfforddi i staff ar raglenni hyfforddiant gorfodol, yn enwedig Symud a Thrafod, yn dal i fod yn broblem mewn rhai sefydliadau. • Nid yw staff bob amser yn cael adborth ynghylch digwyddiadau yr adroddwyd yn eu cylch. • Ceir pryder ynghylch rheoli cleifion sydd ag ymddygiad heriol/y mae angen goruchwyliaeth arnynt ar wardiau acíwt. • Ceir diffyg trefniadau diogelwch mewn rhai mannau mewn sefydliadau.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlyno • Dywedodd pob un fod staff yn ymwybodol o'r ymgyrch 'Glanhewch eich Dwylo'. • Ceir enghreifftiau sy'n dangos bod trefniadau amlwg ar waith ar gyfer cyfeirio materion at staff uwch er mwyn cefnogi'r gwaith o adrodd ynghylch digwyddiadau difrifol ac ymateb iddynt. • Cynhelir archwiliadau rheolaidd o lendid wardiau. • Caiff offer eu cynnal a'u cadw'n dda. • Cyflwynwyd y fenter Trawsnewid Gofal mewn nifer o wardiau ym mhob sefydliad.
Cynlluniau ar gyfer Gwella: • Mae sefydliadau'n gweithio i wella rhaglenni hyfforddiant gorfodol i staff • Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno'r fenter Trawsnewid Gofal i bob ward ym mhob sefydliad • Adolygu trefniadau diogelwch wardiau, yn enwedig gyda'r nos

Safon 4 Hybu Annibyniaeth
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 3; 5; 8; 9; 10; 12; 16; 18; 20

Egwyddor: Bydd y gofal a dderbyniwch yn parchu eich dewisiadau o ran gwneud yn fawr o'ch gallu a'ch awydd i ofalu amdanoch eich hunan

Safon 4 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin/Themâu Allweddol: • Mae rhai sefydliadau'n dal i brofi anawsterau ac oedi wrth gael mynediad i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gweithwyr Cymdeithasol y tu allan i oriau swyddfa, gan arwain at oedi wrth ryddhau cleifion. • Nid yw dogfennau ysgrifenedig sy'n cynnwys teuluoedd/gofalwyr yn y broses ryddhau yn cael eu llenwi bob amser. • Ceir oedi wrth ryddhau cleifion oherwydd diffyg mynediad i offer i'w defnyddio gartref.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol: • Mae cleifion yn ymwneud â'r broses gynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau. • Sefydlwyd fforymau i ddefnyddwyr gwasanaeth. • Caiff gwasanaethau cymunedol eu cynnwys yn gynnar yn y broses gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. • Gweithredu'r fenter Trawsnewid Gofal.
Cynlluniau ar gyfer Gwella: • Cydweithio â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. • Annog cleifion i wneud penderfyniadau o ran gofal personol. • Edrych ar ffyrdd o wella mynediad i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. • Cyflwyno byrddau 'Cipolwg ar Statws y Claf' fel rhan o'r fenter Trawsnewid Gofal. • Cyflwyno trefn o ymweld â chleifion yn fwriadol fel rhan o'r fenter Trawsnewid Gofal.

Safon 6 Gorffwys, Cysgu A Gweithgarwch
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 5; 7; 8; 12

Egwyddor: Rhoddir ystyriaeth i'ch amgylchedd a'ch cysur fel y gellwch orffwyso a chysgu



Crynodeb o Faterion Cyffredin/Themâu Allweddol • Ceir diffyg tystiolaeth wedi'i chofnodi am batrwm cysgu arferol y claf adeg ei dderbyn. • Mae'r cyflenwad o ddillad gwely a chlustogau yn annigonol mewn rhai sefydliadau. • Mae gweithgarwch y ward a lefelau sŵn, yn enwedig gyda'r nos, yn atal cleifion rhag cysgu. • Mae cleifion yn cael eu symud yn ystod y nos. • Mae angen cynyddu cyfnodau gorffwys penodol i gleifion yn ystod y dydd. • Nid oes clustffonau ar gael ar gyfer ffonau.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Trefnir bod ystafelloedd eraill ar gael i gleifion sy'n cael anhawster cysgu gyda'r nos. • Bu cynnydd yn y cyflenwad o ddillad gwely a chlustogau sydd ar gael mewn rhai sefydliadau. • Mae rowndiau rhoi meddyginiaeth wedi eu haddasu er mwyn osgoi aflonyddu ar gleifion yn hwyr yn y nos ac yn gynnar yn y bore. • Dechreuwyd cofnodi patrymau cysgu cleifion yn eu cynlluniau gofal. • Mae staff wedi cael hyfforddiant mewn technegau ymlacio (Iechyd Meddwl). • Anogir nyrsys sy'n gweithio gyda'r nos i wisgo esgidiau â gwadnau meddal.
Cynlluniau ar gyfer Gwella • Cyflwyno rhestr wirio ac arfer o archwilio dogfennau derbyn yn rheolaidd. • Sicrhau bod mwy o glustffonau ar gael. • Mae rhai sefydliadau'n ystyried prynu ffonau sy'n canu'n dawel i'w defnyddio mewn wardiau gyda'r nos. • Datblygu protocolau clir ar gyfer symud cleifion yn ystod y nos. • Cyflwyno cyfnodau gorffwys penodol i gleifion.

Safon 7 Sicrhau Cysur, Lleddfu Poen
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 5; 7; 8; 10; 20; 23; 26

Egwyddor: Fe gewch eich helpu i fod mor gysurus a di-boen ag y bydd eich cyflwr a'ch amgylchiadau yn ei ganiatáu

Safon 7 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin / Themâu Allweddol • Mae mynediad i wasanaethau rheoli poen yn broblem mewn rhai sefydliadau. • Ni chaiff offerynnau asesu poen eu defnyddio'n gyson. • Mae angen gwella'r dull o gofnodi asesiadau poen. • Ceir anhawster cael mynediad i dimau cymorth arbenigol e.e. gwasanaethau seicoleg. • Ceir problem o ran cael mynediad amserol i offer rheoli poen mewn rhai sefydliadau. • Nid yw staff yn gallu mynychu rhaglenni hyfforddiant rheoli poen/llwybr gofal diwedd oes.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Mae tîm rheoli poen a gwasanaethau cymorth arbenigol ar gael mewn rhai sefydliadau. • Defnyddir Offeryn Asesu Poen. • Caiff cleifion eu cynnwys mewn prosesau rheoli poen. • Cafwyd gwelliannau o ran yr asesiadau poen a gynhelir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. • Mae dulliau amgen o leddfu poen ar gael, ee TENS a phadiau gwres. • Mae metrigau wedi eu cyflwyno mewn wardiau.
Cynlluniau ar gyfer Gwella: • Adolygu'r ddarpariaeth o ran hyfforddiant Diwedd Oes i Nyrsys Cofrestredig i gynorthwyo staff wrth ddarparu'r llwybr Gofal Diwedd Oes. • Cynyddu mynediad nyrsys i ddiwrnodau astudio Rheoli Poen. • Cynyddu nifer y gwelyau proffilio sydd ar gael. • Gweithredu Metrigau Nyrsio ar y Ward/Uned.

Safon 8 Hylendid Personol, Golwg Bersonol A Gofal Traed
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 2; 5; 8; 10; 12; 13; 16; 20; 22

Egwyddor: Fe gewch eich cefnogi i fod mor annibynnol ag y bo modd wrth ofalu am eich hylendid personol, eich golwg a'ch traed

Safon 8 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin/Themâu Allweddol: • Nid oes digon o ddrychau ar gael yn enwedig ar uchder cadair olwyn. • Ni chaiff anghenion y claf o ran gofal traed eu hasesu a'u cofnodi bob amser mewn dogfennau nyrsio. • Ychydig o gyfraniad y mae podiatryddion yn ei wneud i ofal cleifion.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Cyflwynwyd bwndel gofal Comodau fel rhan o'r fenter 1000 o Fywydau a Mwy. • Cafwyd gwelliant yn y cyfleusterau ymolchi a thoiledau sydd ar gael ar gyfer dynion a menywod. • Ceir rhaglen hyfforddiant Gofal Traed i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd. • Cyflwynwyd trefn o ymweld â chleifion yn fwriadol fel rhan o'r fenter Trawsnewid Gofal.
Cynlluniau ar gyfer Gwella • Adolygu drychau mewn ystafelloedd ymolchi a hybu'r gwaith o roi drychau ar uchder eistedd a sefyll. • Gwella'r gwaith o gofnodi asesiadau o anghenion o ran gofal traed. • Cyflwyno rhaglenni hyfforddiant ar gyfer Gofal Traed a Gofal Ewinedd. • Datblygu offeryn asesu gofal traed.

Safon 9 Bwyta Ac Yfed
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 5; 8; 14

Egwyddor: Fe Gewch Gynnig Dewis O Fwyd A Diod A Fydd Yn Bodloni Eich Gofynion Personol A'ch Anghenion O Ran Maeth A Chewch Unrhyw Gymorth Y Bydd Ei Angen Arnoch I Fwyta Ac I Yfed.

Safon 9 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin / Themâu Allweddol • Ceir amrywiadau yn safon y dogfennau, ee nid ydynt bob amser yn gyflawn. • Ceir diffyg mynediad i Therapi Lleferydd ac laith. • Ceir anghysondebau o ran yr arfer o bwyso cleifion. • Ceir diffyg byrbrydau. • Ceir diffyg ystafelloedd dydd lle gall cleifion fwyta eu prydau heb fod wrth ymyl y gwely. • Mae staff yn cael anhawster mynychu hyfforddiant ar 'Drafod Bwyd'.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Cafwyd gwelliant yn nifer yr asesiadau Risg o ran Maeth Cleifion a gynhelir wrth dderbyn claf. • Cafwyd gwelliant yn nifer yr asesiadau Risg o ran Maeth Cleifion a gaiff eu gwerthuso. • Ceir amseroedd bwyd penodol a rhoddir pwyslais ar adael i deuluoedd a/neu ofalwr gynorthwyo â bwydo lle bo angen. • Darperir byrbrydau i gleifion sydd wedi methu amser bwyd mewn rhai ardaloedd.
Cynlluniau ar gyfer Gwella • Gweithredu pecynnau hyfforddiant i alluogi nyrsys cofrestredig i gynnal asesiadau llyncu. • Sicrhau gwelliannau o ran cynnig cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn bwyta. • Adolygu amlder rowndiau 'diodydd'. • Sicrhau bod dogfennau'n cael eu harchwilio yn rheolaidd. • Parhau i gydweithio â staff dietegol a staff arlwyo.

Safon 10 Iechyd A Hylendid Y Geg
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 5; 8; 13

Egwyddor: Fe gewch eich cefnogi i gadw eich ceg yn iach ac yn gyfforddus a'ch cadw rhag cael y ddannodd a phoen yng nghig y dannedd. Bydd hyn yn eich galluogi i fwyta'n dda ac i atal problemau cysylltiedig

Safon 10 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin / Themâu Allweddol • Ceir amrywiadau yn y modd y gweithredir Safonau Iechyd y Geg. • Ceir amrywiadau yn safon y wybodaeth sydd ar gael yn y cynlluniau gofal am anghenion cleifion o ran iechyd y geg. • Ychydig o bâst dannedd a brwsys dannedd sydd ar gael. • Nid yw'r staff yn gyfarwydd â'r weithdrefn ar gyfer cael mynediad i ddeintydd neu maent yn cael anhawster gwneud hynny.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Darperir gofal ar gyfer dannedd gosod. • Darperir nwyddau glanhau'r geg i gleifion dibynnol. • Cafwyd gwelliannau o ran asesiadau Hylendid y Geg. • Cyflwynwyd pecynnau safonol o nwyddau glanhau'r geg i gleifion dibynnol.
Cynlluniau ar gyfer Gwella • Cyflwyno Offeryn Asesu Iechyd a Hylendid y Geg Cymru Gyfan. • Cyflwyno rhaglenni hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. • Gweithredu'r fenter Trawsnewid Gofal. • Gweithredu Metrigau Nyrsio ar y Wardiau. • Sicrhau mynediad i well 'pecynnau glanhau'r geg' a brwsys dannedd.

Safon 11 Defnyddio'r Toiled
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 5; 8; 10; 12; 13; 16

Egwyddor: Fe gewch gymorth diffwdan a chyflym, yn ôl yr angen, gan roi ystyriaeth i'ch anghenion penodol a'ch preifatrwydd

Sdt 11 Compliance within each area



Crynodeb o Faterion Cyffredin / Themâu Allweddol • Mae rhai sefydliadau'n dweud nad oes ganddynt olchfeydd digonol ac nad yw llawer o'r cyfleusterau hynny'n gweithio'n iawn. • Nid yw'r cyfleusterau o ran toiledau yn ddigon mawr. • Ceir amrywiadau yn y gwaith o gofnodi anghenion cleifion o ran mynd i'r toiled. • Mae troethlestri'n cael eu gosod mewn modd amhriodol ar gypyrddau neu loceri wrth ymyl y gwely.
Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol • Cafwyd gwelliant yn nifer y toiledau sydd ar gael yn benodol ar gyfer dynion a menywod. • Caiff anghenion pob claf o ran mynd i'r toiled eu hasesu a'u cofnodi. • Mae cyfleusterau golchi dwylo a thyweli papur ar gael ym mhob ardal toiled. • Cynhelir adolygiadau POINT sy'n adolygu amgylchedd y ward a materion sy'n gysylltiedig ag urddas a phreifatrwydd. • Cyflwynwyd Bwndel Gofal Comodau a Bwndel Gofal Cathetrau. • Ceir mynediad i Nyrs Wroleg Arbenigol gwrywaidd. • Cyflwynwyd Nyrsys Cyswllt ar gyfer gofal cathetr/rheoli heintiau. • Mae staff nyrsio yn ymateb yn gyflym i glychau galw am gymorth. • Mae timau ymataliaeth sy'n darparu cymorth i gleifion, perthnasau a staff nyrsio ar gael mewn rhai Byrddau Iechyd.
Cynlluniau ar gyfer Gwella • Datblygu safon Ymataliaeth Cymru Gyfan. • Datblygu hyfforddiant ymataliaeth sydd ar gael yn rhwydd i staff nyrsio. • Gwella arwyddion mewn wardiau. • Atgyfnerthu pwysigrwydd cael gwared â phadelli gwelyau/troethlestri o ymyl gwely'r claf. • Cynnal Arolygon o Urddas Cleifion bob chwarter.

Safon 12 Atal Briwiau Gwasgu
Safonau Ar Gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 5; 7; 8; 9; 12; 14; 16; 22; 26

Egwyddor: Fe gewch eich helpu i ofalu am eich croen a gwneir pob ymdrech i'ch rhwystro rhag cael briwiau gwasgu

Safon 12 Lefelau cydymffurfio ym mhob ardal



Crynodeb o Faterion Cyffredin / Themâu Allweddol:

- Ceir amrywiadau yn y wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion am atal a rheoli briwiau gwasgu.
- Nid yw Cynlluniau Gofal bob amser yn adlewyrchu'r broses barhaus o reoli briwiau gwasgu.
- Mae staff yn cael anhawster mynychu hyfforddiant asesu risg o ran briwiau gwasgu ac atal niwed o ganlyniad i wasgu.

Meysydd Arfer Da yng nghyswllt y safonau canlynol:

- Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal.
- Caiff achosion o friwiau gwasgu eu monitro fel rhan o Fetrigau Gofal a'r Dangosfwrdd Nyrsio.
- Cyflwynwyd bwndel gofal SKIN.
- Cyflwynwyd y fenter Trawsnewid Gofal.
- Cyflwynwyd trefn o ymweld â chleifion yn fwriadol.
- Ceir mynediad gwell i offer i leddfu achosion o wasgu.
- Ceir mynediad i dimau cymorth arbenigol a chynhelir Archwiliadau Hyfywedd Meinwe.

Cynlluniau ar gyfer Gwella:

- Gwella taflenni gwybodaeth i gleifion.
- Darparu cymorth i ryddhau nyrsys o wardiau i fynychu sesiynau hyfforddiant.
- Gweithredu Bwndel gofal SKIN Cymru Gyfan ar draws pob ward ym mhob Bwrdd Iechyd.
- Gweithredu'r fenter Trawsnewid Gofal ar draws pob ward yn GIG Cymru.

Canlyniadau

Mae pob un o'r saith Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi cyflwyno adroddiadau sy'n amlinellu canfyddiadau eu harchwiliadau unigol. Mae pob sefydliad wedi cyflwyno'r canfyddiadau/adroddiadau yng nghyfarfod eu Bwrdd Gweithredol ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwr Nyrsio.

Data 2011

Er bod y Byrddau Iechyd wedi dangos gwelliannau yn y safonau a nodir isod ers i'r archwiliadau cenedlaethol ddechrau yn 2009, mae'r archwiliad presennol yn awgrymu bod angen gwelliannau yn y meysydd hyn o hyd:

a) Hylendid Personol a Golwg Bersonol (Safon 8)
b) Iechyd a Hylendid y Geg (Safon 10)

Er bod rhai o'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth wedi dangos gwelliannau sylweddol ar ganlyniadau 2010 rhagwelir y bydd cyflwyno Safon Iechyd a Hylendid y Geg Cymru Gyfan ynghyd ag Offeryn Asesu, Trawsnewid Gofal a Chynlluniau Gweithredu Byrddau/ Ymddiriedolaeth Iechyd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn golygu y bydd archwiliad 2012 yn dangos gwelliant amlwg yn y ddau faes hyn ar draws pob Bwrdd Iechyd.

Un maes yn benodol y mae nifer o Fyrddau Iechyd wedi dweud y mae angen ei wella yw:

c) Gorffwys, Cysgu a Gweithgarwch (Safon 6)

Bydd Cyfarwyddwyr Nyrsio, mewn trafodaeth â Phrif Swyddog Nyrsio Cymru, yn cytuno ar raglen waith Cymru Gyfan i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Mae pob un o'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth GIG a fu'n rhan o'r archwiliad wedi cydnabod bod meysydd/wardiau y mae angen iddynt eu gwella. Mae pob Bwrdd Iechyd a'r Ymddiriedolaeth GIG wedi rhoi prosesau a systemau ar waith er mwyn i bob maes/ward adolygu a diweddaru eu Cynlluniau Gweithredu yn rheolaidd, gan fynd i'r afael â'r materion a godir a gwella'r gofal. Mae gan y Cyfarwyddwyr Nyrsio drosolwg o bob un o'r Cynlluniau Gweithredu.

Casgliad

Mae Offeryn Archwilio Hanfodion Gofal Cymru Gyfan bellach yn cael ei ddefnyddio ym mhob un o ysbytai GIG Cymru. Mae gwaith wedi parhau drwy 2011 o ran addasu'r offeryn i'w ddefnyddio mewn lleoliadau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol. Mae'r grŵp wedi bod yn gweithio ar ddatblygu nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â dementia a materion iechyd meddwl i'w defnyddio mewn lleoliadau acíwt.

Mae mwy o lawer o adrannau yn defnyddio'r offeryn archwilio erbyn hyn o'i gymharu â 2009. Bydd y wybodaeth a gesglir yn parhau i gael ei defnyddio i lunio meincnod i sefydliadau flaenoriaethu camau gweithredu lleol ond hefyd i ddylanwadu ar waith sy'n digwydd ar lefel Cymru gyfan, i wella safonau gofal i gleifion a gwella profiad cyffredinol y claf.